Llythrennedd Digidol ac eDdiogelwch

Canllaw i Athrawon

Cynnwys Anghyfreithlon ac Amhriodol

Dylai eich ysgol fod â Pholisi Defnydd Derbyniol. Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch myfyrwyr yn gwybod beth sy'n cael ei ganiatáu a beth i'w wneud os digwydd i chi fynd at wefan neu ddelwedd amhriodol yn ddamweiniol. Dylid riportio gwefannau anghyfreithlon i Sefydliad Gwarchod y Rhyngrwyd: http://www.iwf.org.uk.

Llên-ladrad a Hawlfraint

Gwnewch yn siŵr bod eich myfyrwyr yn gwybod am hawlfraint, llên-ladrad a phwysigrwydd cydnabod ffynonellau wrth ddefnyddio deunydd oddi ar y Rhyngrwyd. Mae adnoddau cwricwlwm i'w cael yn rhad ac am ddim o GCaD Cymru: http://www.gcad-cymru.org.uk.

Seiberfwlio

Dylai polisi gwrth-fwlio eich ysgol gynnwys seiberfwlio. Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch myfyrwyr yn deall sut i rwystro a riportio seiberfwlio.

Muriau Gwarchod a Diogelwch

Gall llyngyr, firysau ac ysbïwedd achosi niwed difrifol i gyfrifiaduron a difetha preifatrwydd a data. Anogwch ymarfer da yn eich ysgol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn diogelu eich cyfrineiriau a pheidiwch â gadael peiriannau heb fod rhywun yno pan fyddwch wedi "logio mewn".

Negeseua, Rhwydweithio Cymdeithasol, Ymddiriedaeth, Cyfrifoldeb a Phreifatrwydd Arlein

Mae gwefannau 'Messenger' a Gwefannau Rhwydweithio Cymdeithasol yn llawer o hwyl, ond anogwch eich myfyrwyr i feddwl am ymddiriedaeth, preifatrwydd a chyfrifoldeb wrth ddefnyddio'r gwefannau hyn.

Grwmio Arlein neu Gyswllt Amhriodol

Rhowch gymorth i'ch myfyrwyr i ddeall sut y gall "grwmio" arlein ddigwydd a sut weithiau , y gall ffrindiau arlein beidio bod yr hyn maent yn honni eu bod.

Riportio Camdriniaeth

Anogwch ddisgyblion i riportio unrhyw negeseuon amhriodol neu aflonyddol ar symudol neu'r rhyngrwyd, a chadw'r dystiolaeth. Os bydd plentyn yn teimlo ei fod mewn perygl ar y pryd, dylai ffonio 999 yn syth am gymorth oddi wrth yr heddlu. Gall plant hefyd gysylltu â'r llinell gymorth ChildLine ar: 0800 1111 am gymorth a chefnogaeth.

Am fwy o wybodaeth ar ddelio ag eDdiogelwch a chael y gorau o'r Rhyngrwyd, gweler:

eDdiogelwch Cymru
http://esafety.ngfl-cymru.org.uk

WISE KIDS: Yn Hybu Defnydd Arloesol, Cadarnhaol a Diogel o'r Rhyngrwyd
http://www.wisekids.org.uk

Cynhyrchwyd gan WISE KIDS ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru. © Hawlfraint y Goron 2008.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government